# Newidiadau Arfaethedig i CBAC UG a Safon Uwch Daearyddiaeth

## Cyflwyniad

Mae CBAC yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r cymwysterau UG a Safon Uwch Daearyddiaeth yn dilyn adolygiad wedi'i dargedu. Nod yr adolygiad yw sicrhau bod y fanyleb yn parhau i fod yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hylaw, yn cyd-fynd â'r cymhwyster TGAU Daearyddiaeth diwygiedig, ac yn parhau i gefnogi dilyniant dysgwyr i addysg uwch a chyflogaeth, tra'n osgoi diwygio cyffredinol.

## Pam mae'r adolygiad hwn yn digwydd?

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru feini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau TGAU a Lefel 2 newydd. Yn rhan o'r broses hon, gofynnwyd i CBAC adolygu cymwysterau UG a Safon Uwch cyfredol i sicrhau eu bod yn cyfateb i'r cymwysterau TGAU diwygiedig ac yn parhau i fod yn berthnasol. Nodwyd Daearyddiaeth fel un o'r pynciau y mae angen ei adolygu ar y lefel uchaf.

## Dull cyffredinol

Mae hwn yn adolygiad wedi'i dargedu yn hytrach na diwygiad llawn. Nid yw strwythur y fanyleb wedi newid ac mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys yn cael ei gadw. Mae'r newidiadau arfaethedig yn canolbwyntio ar ddiweddaru cynnwys sydd wedi mynd ar ôl yr oes, gwella hydrinedd, a chryfhau'r gyfatebiaeth i'r TGAU Daearyddiaeth.

## Beth sydd wedi aros yr un fath?

Bydd agweddau allweddol ar y cymhwyster yn aros yr un fath i sicrhau dilyniant i ganolfannau a dysgwyr:

- Strwythur cyffredinol y cymhwyster
- Teitlau'r unedau
- Mwyafrif y cynnwys presennol
- Dim newidiadau i Adran B Uned 2
- Dim newidiadau i Uned 5 (Ymchwiliad Annibynnol)

## Beth sy'n cael ei gynnig?

Mae rhywfaint o gynnwys sydd ar ôl yr oes neu'n rhy gymhleth wedi'i ddileu. Mae cynnwys wedi'i ail-leoli lle bo hynny'n briodol, ac mae deunydd newydd wedi'i ychwanegu i adlewyrchu materion daearyddol cyfoes, ystyriaethau cydraddoldeb a safbwyntiau byd-eang.
Cynigir newidiadau ar gyfer Unedau 1 a 2 i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2027, ac Unedau 3 a 4 i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2028.

## Crynodeb o'r newidiadau yn ôl uned

Uned 1:

| | Adrannau wedi'u Dileu | Wedi'i ddiweddaru/wedi'i ychwanegu |
|---|---|---|
| Arfordirol | • newidiadau ewstatig neu isostatig | Er mwyn eglurder a hygyrchedd wedi'i ddiweddaru i ddarllen:<br>• tirweddau arfordirol cyfodol sy'n gysylltiedig â gostyngiad yn lefel y môr (cyfordraethau, terasau morol, clogwyni gadawedig) neu dirweddau arfordirol tanddwr sy'n gysylltiedig â lefel y môr yn codi (riau, ffiordau, traethau graean bras) |
| Rhewlifedig | • prosesau ffinrewlifol a phroses ffurfio arweddion cysylltiedig | • prosesau isawyrol o hindreulio rhewi-dadmer a màs-symudiad gan gynnwys tirlithriadau, tirgwympiadau a chwymp creigiau (ychwanegwyd er mwyn eglurder) |
| Peryglon Tectonig | • Graddfeydd Mercalli a Richter<br>• effeithiau cynradd ac eilaidd | • Graddfa Maint Moment<br>• Tswnamïau (Wedi'i symud draw o Uned 4) |

Uned 2: Adran A – mae 76% o'r uned wreiddiol yn aros yr un fath ond yr effaith net yw hynny gydag amnewidiadau agos iawn.

| Adrannau wedi'u Dileu |
|---|
| • Y ffordd y mae parhad a newid o ran y ffactorau hyn, o'r rhai lleol i'r rhai byd-eang, yn effeithio ar fywydau'r dysgwyr eu hunain a bywydau eraill<br>• Rhoddir ystyr i leoedd o ganlyniad i ganfyddiadau pobl, eu hymgysylltiad â'r lle dan sylw a'u hymlyniadau wrth y lle, ac maent wedi'u cysylltu â gwahanol hunaniaethau, safbwyntiau a phrofiadau, er enghraifft Parc Cenedlaethol Eryri |

| Adrannau wedi'u Diweddaru | Wedi'u diweddaru i |
|---|---|
| • y Model Clark Fisher<br>• Cymhlethdod yr economi gwasanaethau sy'n newid gan gynnwys dirywiad parhaus i rai lleoedd trefol canolog, adwerthu y tu allan i drefi, a pharciau swyddfeydd, siopa ar y rhyngrwyd ac adloniant canolog ac | • y model Pum Sector<br>• cymhlethdod yr economi gwasanaethau newidiol gan gynnwys:<br>  • adwerthu trefol a defnydd swyddfa<br>  • parciau adwerthu a busnes y tu allan i'r dref |

| | |
|---|---|
| effeithiau'r newidiadau hyn ar fywydau pobl ar amryw o raddfeydd<br><br>• Ffactorau lleoliad sy'n annog twf clystyrau gan gynnwys  agosrwydd at brifysgolion a sefydliadau ymchwil, cymorth gan y llywodraeth, rheoliadau cynllunio ac isadeiledd<br><br>• Effeithiau clystyrau diwydiant cwaternaidd ar bobl a lleoedd  gan gynnwys creu lleoedd a marchnata, newid demograffig a  chysylltedd byd-eang<br><br>• Ailddelweddu ac adfywio lleoedd trefol drwy stadiymau chwaraeon / cerddoriaeth, ardaloedd diwylliannol o drefi, gwyliau, treftadaeth ddiwydiannol a datblygiadau blaengar<br><br>• Sialensiau newydd sydd ynghlwm wrth reoli newid mewn rhai cymunedau trefol yn gysylltiedig â'r pandemig Covid-19 a newidiadau economaidd | • siopa ar y rhyngrwyd a gweithio hybrid/o bell<br>• gwasanaethau hamdden a seiliedig ar brofiad mewn lleoedd canolog<br><br>• ystyried effeithiau cymdeithasol ac economaidd y newidiadau hyn ar bobl a lleoedd ar raddfeydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.<br><br>• ffactorau lleoliad sy'n annog twf clystyrau gan gynnwys agosrwydd at brifysgolion a sefydliadau ymchwil, cymorth a mentrau llywodraeth, rheoliadau cynllunio ac isadeiledd, cyfleoedd i gydweithio ac arloesi<br><br>• effeithiau clystyrau diwydiant cwaternaidd ar bobl a lleoedd gan gynnwys twf economaidd, brandio lleoedd ac adfywio, newid demograffig ac anghydraddoldeb, costau byw cynyddol a chysylltedd cenedlaethol a byd-eang cynyddol<br><br>• ailddelweddu ac adfywio lleoedd trefol drwy asiantaethau allanol gan gynnwys llywodraethau, cyrff corfforaethol, partneriaethau cyhoeddus-preifat a grwpiau cymunedol<br><br>• sialensiau newydd sydd ynghlwm wrth reoli newid mewn rhai cymunedau trefol yn gysylltiedig â newidiadau cymdeithasol economaidd. |

Adran B – Dim newidiadau.

Uned 3:
Systemau Byd-eang – nid yw 98% o'r cynnwys wedi newid:

| Adrannau wedi'u Dileu |
|---|
| • Damcaniaethau ynghylch ffurfio dyodiad gan gynnwys Gwrthdrawiad a phroses Bergeron-Findeisen<br>• hylosgi tanwyddau ffosil, dal a storio carbon |

| Adrannau wedi'u Hychwanegu |
|---|
| • sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar fewnbynnau, allbynnau, llifoedd a storfeydd yn y gylchred ddŵr.<br>• sut mae newid hinsawdd a gweithgareddau dynol yn effeithio ar fewnbynnau, allbynnau, storfeydd a llifoedd yn y gylchred carbon |

Dylai dysgwyr ddeall effaith newid hinsawdd anthropogenig ar y canlynol:

- systemau dynol byd-eang: risgiau iechyd fel straen gwres, lledaeniad clefydau a chamfaethiad
- systemau economaidd: difrod i isadeiledd yn sgil stormydd / llifogydd a thanau gwyllt a chostau uwch ar gyfer egni, yswiriant ac adfer yn sgil trychineb
- systemau naturiol: colli bioamrywiaeth, dinistrio cynefinoedd.

Dylai dysgwyr wybod ystyr cyfiawnder hinsawdd.

Dylai dysgwyr ddeall strategaethau cenedlaethol a byd-eang i liniaru ac addasu i newid hinsawdd anthropogenig:

Strategaethau cenedlaethol:

- ehangu egni adnewyddadwy, er enghraifft, China
- polisïau lleihau allyriadau er enghraifft, Cymru gyda tharged sero net erbyn 2050
- amaethyddiaeth hinsawdd-ddeallus er enghraifft, addasu yn Ecuador – rheoli da byw

Strategaethau byd-eang sy'n anelu at sicrhau bod y newid i fyd carbon isel yn deg, cynhwysol a chyfiawn. I gynnwys:

- Cytundeb Paris a'i fecanweithiau o dan UNFCC
- Mentrau hinsawdd rhynglywodraethol. (Mae'r adran hon wedi symud o Tywydd a Hinsawdd yn Uned 4. Ychwanegwyd y strategaethau a enwyd er mwyn eglurder)

| Adrannau wedi'u Diweddaru | Wedi'u diweddaru i |
|---|---|
| • Achosion ymgodiad aer, cyddwysiad, a'r broses o ffurfio cymylau gan gynnwys orograffig, ffrynt a darfudiad | • achosion ffurfio cymylau a dyodiad gan gynnwys orograffig, blaen a darfudiad |
| • Llwybrau carbon rhwng y cefnfor a'r atmosffer drwy brosesau amsugniad gan fiota, trylediad i gefnforoedd ac allan ohonynt | • Llwybrau carbon rhwng y cefnfor ac atmosffer trwy'r hydoddiant a phympiau biolegol |
| • Cyfunwyd Adrannau 3.1.7 a 3.1.8 gyda'r dewis o ddau amgylchedd | • strategaethau adfywio a rheoli cynaliadwy ar gyfer storfeydd carbon mewn dau amgylchedd o goedwigoedd glaw trofannol, glaswelltir tymherus, a mawndiroedd |

Llywodraethiant Byd-eang: nid yw 98% o'r cynnwys wedi newid. Sylwer y bydd unrhyw newid i'r byd sy'n datblygu yn newid i'r De Global.

| Adrannau wedi'u Dileu |
|---|
| • mudo economaidd |
| • Sefydliadau uwchgenedlaethol ôl-1945 ar gyfer llywodraethiant byd-eang gan gynnwys y Cenhedloedd Unedig ac UNESCO, yr UE, G7/G8, G20, G77 a NATO |
| • Cysylltiadau a grewyd ar sail rôl flaenorol y DU fel pŵer morol, gan gynnwys y Gymanwlad |
| • Twf smyglo a masnachu pobl ac ymdrechion rhyngwladol i reoli'r llifoedd hyn |

| Adrannau wedi'u Hychwanegu |
|---|
| Dylai dysgwyr wybod y canlynol: |

- sut mae llywodraethu byd-eang yn herio sofraniaeth genedlaethol
- dynameg pŵer anghyfartal byd cyfoes
- bygythiadau i forgludiant oherwydd gwrthdaro geowleidyddol, gorgynhwysedd, pwysau hinsawdd a rheoleiddio morgludiant gan gynnwys cynwysyddion a thanceri olew (3.2.7)

| Adrannau wedi'u Diweddaru | Wedi'u diweddaru i |
|---|---|
| • ffactorau sy'n creu byd sy'n lleihau ar gyfer mudwyr posibl gan gynnwys cludiant, cyfathrebu a chynrychiolaeth yn y cyfryngau | • Globaleiddio a ffactorau sy'n creu byd sy'n lleihau ar gyfer mudwyr posibl gan gynnwys cludiant, cyfathrebu a chynrychiolaeth yn y cyfryngau |
| • Yr hyn sydd wedi sbarduno mudo yn ddiweddar gan gynnwys datblygiad cymunedau diaspora, cysylltiadau trefedigaethol a chysylltiadau'r Gymanwlad, a deddfwriaeth sy'n caniatáu rhyddid i symud o un lle i'r llall, gan gynnwys yn yr UE | • Ymhlith ysgogwyr mudo diweddar y mae twf rhwydweithiau diaspora, cysylltiadau hanesyddol megis cysylltiadau trefedigaethol neu Gymanwlad, a deddfwriaeth neu gytundebau sy'n galluogi rhyddid i symud, gan gynnwys rheolau'r UE (gan gynnwys effaith Brexit ar batrymau mudo), dadleoli poblogaethau oherwydd gwrthdaro, trychinebau naturiol, ac ymyriadau geowleidyddol *(wedi'i ychwanegu er mwyn eglurder)* |
| • Sut mae gwledydd sy'n bwerau mawr yn cael dylanwad ac yn atynnu mudwyr rhyngwladol i raddau anghymesur er eu mantais eu hunain, gan gynnwys strategaethau gwleidyddol i ddatblygu dinasoedd yn ganolfannau byd-eang ar gyfer buddsoddi a mudo | • sut mae pwerau mawr yn dylanwadu ar reolau byd-eang |
| • Llifoedd arian, syniadau a thechnoleg sydd wedi'u cysylltu â mudo economaidd ac sy'n lleihau neu'n gwaethygu anghydraddoldebau economaidd byd-eang, gan gynnwys trosglwyddo arian yn ôl gartref a 'draen dawn' yn achos gweithwyr medrus. Mae'r ffactorau hyn yn gallu achosi gwrthdaro ond hyrwyddo twf a sefydlogrwydd | • llifoedd arian, syniadau a thechnoleg sydd wedi'u cysylltu â mudo economaidd ac sy'n lleihau neu'n gwaethygu anghydraddoldebau economaidd byd-eang, gan gynnwys trosglwyddo arian yn ôl gartref a 'draen dawn' yn achos gweithwyr medrus. Sut y gall y ffactorau hyn waethygu a lleihau anghydraddoldebau byd-eang, weithiau gan achosi gwrthdaro ond hefyd drwy hyrwyddo twf a sefydlogrwydd |
| • Polisïau mudo gwledydd croesawu a tharddwledydd, gan gynnwys rheoli safbwyntiau sy'n gwrthdaro ynglŷn â newid diwylliannol a mudo sydd gan ddinasyddion unigol y DU, dinasyddion Cymru yn eu plith (ac o ran bywydau'r dysgwyr eu hunain) | • Polisïau mudo gwledydd croesawu a tharddwledydd, gan gynnwys sut mae llywodraethau'n rheoli llifoedd mudo, rheolau fisa a lloches; a sut mae'r polisïau hyn yn croestorri â safbwyntiau'r cyhoedd sy'n gwrthdaro am newid diwylliannol a mudo, gan gynnwys safbwyntiau yn y DU (a Chymru) a phrofiadau dysgwyr eu hunain. |

| | |
|---|---|
| • Deddfau a chytundebau sy’n rheoli’r defnydd o gefnforoedd mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a sefydlogrwydd geowleidyddol | (Wedi'i ddiweddaru i gyfuno Adrannau 3.2.4 a 3.2.5)<br><br>• Cyfreithiau a chytundebau sy'n rheoleiddio'r defnydd o gefnforoedd y Ddaear mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a sefydlogrwydd geowleidyddol (gan gynnwys rôl y Cenhedloedd Unedig a fframweithiau rhyngwladol fel Confensiwn y Cenhedloedd ar Gyfraith y Môr) |
| • Risgiau i rwydweithiau ceblau data llawr y môr gan gynnwys y rhai oddi wrth tswnamïau a thirlithriadau o dan y môr, a chonfensiynau rhyngwladol i ddiogelu ceblau data llawr y môr | • bygythiadau i geblau tanfor oherwydd peryglon naturiol gan gynnwys tswnamïau a thirlithriadau o dan y môr, tensiynau geowleidyddol a chonfensiynau rhyngwladol i ddiogelu ceblau tanfor |

Uned 4:

- Adran A Peryglon Tectonig – Mae'r adran hon wedi'i dileu oherwydd ailadrodd cynnwys o UG. Mae adrannau nad oeddent yn ailadrodd wedi'u symud i'r cynnwys UG.
- Adran B i ddod yn Adran A yn y fanyleb newydd – Mae dysgwyr yn dewis dwy thema o:
  - Ecosystemau
  - Twf a Sialens Economaidd naill ai yn China neu wledydd a ddewiswyd yn Affrica[1]
  - Sialensiau a Dilemâu Egni
  - Tywydd a hinsawdd

Ar gyfer Adran B, bydd Sialensiau'r 21ain Ganrif yn symud o Uned 3. Bydd yr asesiad yn yr adran hon yn canolbwyntio ar allu’r dysgwyr i ddwyn ynghyd elfennau o bob rhan o’r cwrs. Bydd gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch o leiaf dwy o’r pedair thema yn Unedau 1, 2 a 3 yn rhan o’r asesiad.

Ecosystemau – Mae graddfa'r newid yn ddibwys. Nid yw'r cynnwys a'r amcanion dysgu wedi'u newid o gwbl, gyda dim ond eglurhad bach neu ymhelaethiad wedi'i ychwanegu.

[1] Mae India wedi'i dileu fel opsiwn oherwydd lefelau isel o ymgeiswyr yn ei dewis fel opsiwn. Yn 2024, roedd ymgeiswyr yn dewis India yn cynrychioli 7.2% o'r garfan gyfan, o gymharu â 36% yn dewis China a 25% yn dewis Gwledydd Affrica. Yn 2025, aeth y niferoedd i fyny ychydig ond roeddent yn dal i fod yn gymharol isel, gyda 10.1% o ymgeiswyr yn dewis India, o gymharu â 32% yn dewis China a 24% yn dewis Gwledydd Affrica.

Twf Economaidd a Sialensiau yn China – nid yw 96% o'r cynnwys wedi'i newid:

| Adrannau wedi'u Dileu |
|---|
| • patrymau draenio<br>• dosbarthiad gweithgarwch economaidd<br>• comiwnyddiaeth wedi'i haddasu yn China ar newid economaidd<br>• rhoi gwaith yn allanol a rhoi gwaith dramor<br>• pŵer meddal<br>• straen amgylcheddol sy'n gysylltiedig â threfoli cyflym<br>• strategaethau i wella cynaliadwyedd cymunedau trefol |

| Adrannau wedi'u hychwanegu i ymochri â China |
|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod diffiniadau o ddatblygiad yn ddeinamig.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut i fesur datblygiad gan gynnwys mesurau meintiol a mesurau ansoddol syml a chyfansawdd<br>• cryfderau a chyfyngiadau gwahanol ddulliau a ddefnyddir i ddosbarthu gwledydd<br><br>• y sylfaen adnoddau gan gynnwys ffynonellau egni a mwynau<br>• dylanwad masnach<br>• dylanwad twristiaeth<br>• dylanwad ffactorau gwleidyddol gan gynnwys llywodraethiant, llygredd, trefedigaethedd a neodrefedigaethedd a sefydliadau byd-eang |

| Adrannau wedi'u Diweddaru | Wedi'u diweddaru i |
|---|---|
| • Rôl llywodraeth yn y broses o leoli a datblygu gweithgarwch economaidd | • rôl llywodraeth a ffactorau gwleidyddol allanol yn y broses o leoli a datblygu gweithgarwch economaidd |
| • Y syfliad byd-eang, rhoi gwaith yn allanol a thramor gan gynnwys rôl China yn weithdy'r byd | • pwysigrwydd byd-eang China fel pwerdy gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg blaenllaw. |

Twf a Sialens Economaidd mewn Gwledydd a Ddewiswyd yn Affrica – nid yw 86% o'r cynnwys wedi newid:

| Adrannau wedi'u Dileu |
|---|
| • Dylanwad masnach rydd a blociau masnach o ran hyrwyddo a llesteirio datblygiad<br>• Y felltith adnoddau a gwrthdaro, gan gynnwys mater mwynau gwrthdaro<br>• Dylanwad corfforaethau amlwladol, gan gynnwys buddsoddi uniongyrchol dramor, trefnu mynd â gwaith yn allanol a thramor<br>• cyfyngiadau cymdeithasol a diwylliannol |

| Adrannau Wedi'u Hychwanegu i ymochri â China |
|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod diffiniadau o ddatblygiad yn ddeinamig.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut i fesur datblygiad gan gynnwys mesurau meintiol a mesurau ansoddol syml a chyfansawdd<br>• cryfderau a chyfyngiadau gwahanol ddulliau a ddefnyddir i ddosbarthu gwledydd<br>• y sylfaen adnoddau gan gynnwys ffynonellau egni a mwynau<br>• newidiadau diweddar ym maint a strwythur economïau gwledydd a ddewiswyd yn Affrica<br>• integreiddio byd-eang gwledydd a ddewiswyd yn Affrica<br>• cyfranogiad mewn sefydliadau byd-eang, llywodraethu, confensiynau a chytundebau<br>• pwysau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â thwf economaidd gan gynnwys defnyddio tanwyddau ffosil, llygredd diwydiannol<br>• materion amgylcheddol diogeledd dŵr, diogeledd bwyd a diogeledd egni<br>• strategaethau i wella diogeledd naill ai dŵr neu fwyd neu egni |

| | Adrannau wedi'u Diweddaru | Wedi'u diweddaru i |
|---|---|---|
| Sialensiau a Dilemâu Egni | • Dewisiadau amgen i ffynonellau tanwydd ffosil arferol<br><br>• Ar raddfa genedlaethol, ffactorau sy'n dylanwadu ar gymysgedd egni gwledydd sydd mewn gwahanol gyfnodau o ran datblygiad | • dewisiadau amgen i ffynonellau tanwydd ffosil confensiynol gan gynnwys deunyddiau ailgylchadwy ac adnewyddadwy<br>• ar raddfa genedlaethol, ffactorau sy'n dylanwadu ar gymysgedd egni gwledydd ar wahanol gamau datblygiad, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Chynllun Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru |

Tywydd a hinsawdd – nid yw 97% o'r cynnwys wedi newid:

| Adrannau wedi'u Dileu |
|---|
| • Adeiledd yr atmosffer gan gynnwys nodweddion gwahanol haenau a'u rôl o ran rheoli hinsawdd a'r gyllideb gwres atmosfferig |

| Adrannau wedi'u Hychwanegu |
|---|
| • newidiadau a ragwelir i barthau hinsoddol byd-eang a monsynau oherwydd newid hinsawdd anthropogenig<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• strategaethau i wella amgylcheddau trefol a gwneud poblogaethau trefol yn fwy gwydn i ddigwyddiadau tywydd eithafol<br>• y ffactorau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol sy'n dylanwadu ar weithredu lliniaru tywydd eithafol mewn ardaloedd trefol er enghraifft lliniaru llifogydd a rheoli dŵr; lleihau ynysoedd gwres trefol; cynllunio at argyfyngau / gwydnwch isadeiledd a systemau rhybuddio cynnar. |

| Adrannau wedi'u Diweddaru | Wedi'u diweddaru i |
|---|---|
| • Sefyllfa newidiol poblogaethau o ran y graddau y maent yn agored i niwed gan beryglon tywydd a hinsawdd, gan gynnwys bod yn destun amrywioldeb yn yr hinsawdd, gwydnwch a'r gallu sydd ganddyn nhw i ymaddasu | • sefyllfa newidiol poblogaethau o ran y graddau y maent yn agored i niwed oherwydd tywydd eithafol, lefel y môr yn codi a newid hinsawdd, gan gynnwys bod yn destun amrywioldeb yn yr hinsawdd, gwydnwch a faint o gyllid hinsawdd sydd ar gael iddynt |

Uned 5 – Dim newidiadau

## Manteision arfaethedig

Nod y fanyleb ddiwygiedig yw gwella perthnasedd, hydrinedd, dilysrwydd asesu, ac ymgysylltiad dysgwyr, tra'n cefnogi dilyniant i addysg uwch a chyflogaeth.

## Sut i ymateb

Gwahoddir rhanddeiliaid i wneud sylwadau ar y dull cyffredinol, y newidiadau arfaethedig ar lefel uned, ac unrhyw fanteision neu bryderon posibl. Bydd adborth yn llywio penderfyniadau terfynol cyn eu cymeradwyo.
Ar ôl darllen y cynnig hwn, ymatebwch i'r arolwg yma erbyn 22.05.26